

**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**

**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**



CYDWEITHIO ER BUDD DIOGELWCH AR Y FFERM

**Stopiwch...meddyliwch...cadwch yn ddiogel ar eich fferm
Awgrymiadau i wneud eich fferm yn lle diogel i weithio**



**FARMING
connect**
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Dilynwch **STOPIO’N DDIOGEL** bob amser

Bob tro y byddwch yn gadael sedd unrhyw gerbyd fferm, cofiwch...



RHOWCH Y
BRÛC LLAW
YMLAEN



DIFFODDWCH
YR INJAN



RHEOLYDDION
YN NIWTRAL



TYNNWCH
YR ALLWEDD
ALLAN

Dros y ddegawd diwethaf, lladdwyd bron i **40 o bobl** a oedd yn defnyddio peiriannau fferm drwy gael eu taro i lawr gan eu cerbyd eu hunain ar ôl gadael y cab heb osod y brêc llaw. Lladdwyd oddeutu **30 o bobl** hefyd o ganlyniad i fynd yn sownd yn eu peiriannau, ac fe anafwyd llawer mwy. Digwyddodd **80%** o'r achosion hyn drwy wneud addasiadau tra bod y peiriannau'n dal i redeg.

Clawr: Cafodd Robin Foord o Abergavenny ddamwain wrth ceisio tynnu grawn o gynaeafydd tra roedd yn dal i redeg.

Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru - Rhagair

Colli **32** o fywydau bob blwyddyn ffermwyr, aelodau'r teulu a gweithwyr fferm!

Mae 32 o farwolaethau yn digwydd ar ffermydd Prydain bob blwyddyn – ystadegyn dychrynlyd sydd angen sylw. Mae miloedd eraill wedi dioddef anafiadau sydd wedi newid eu bywydau neu eu hiechyd.

Mae Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, sef cydweithrediad o randdeiliaid amaethyddol allweddol yng Nghymru, yn benderfynol o leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n digwydd ar ffermydd yng Nghymru bob blwyddyn.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r diwydiant adeiladu wedi gwella eu safonau diogelwch yn aruthrol. Yn anffodus, ni ellir dweud yr un peth am ffermio. Erbyn hyn rydych chi chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eich lladd ar fferm nag ar safle adeiladu. Ein nod yw annog ffermwyr, eu teuluoedd a'u gweithwyr i **aros, meddwl ac i gadw'n ddiogel**.

Drwy gyd-weithio, mae'r **gallu gennym ni** i newid ein hymddygiad ac **mae'n rhaid i ni wneud hynny. Gallwn ni, ac mae'n rhaid i ni** achub bywydau a bywoliaethau ar ffermydd Cymru. Rwy'n eich annog i gydymffurfio â'r gyfraith a gosod y gardiau diogelwch cywir ar eich fferm, i leihau'r risg o anafiadau a marwolaeth i chi, eich teulu a'ch gweithwyr. Gyda'n gilydd, fe allwn wneud eich fferm yn lle diogel i weithio.



BRIAN REES

Cadeirydd

Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru

Mae'r sefydliadau sy'n aelod o'r Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru yn cynnwys:

APHA

(Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion)

CAFC

(Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru)

Cffi Cymru

(Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru)

CLA Cymru

(Country Landowners Association Cymru)

FCN

(Farm Community Network)

FUW

(Undeb Amaethwyr Cymru)

HCC

(Hybu Cig Cymru)

IOSH

(Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol)

Lantra Cymru

Llywodraeth Cymru

NFU Cymru

CNC

(Cyfoeth Naturiol Cymru)

RABI

(Royal Agricultural Benevolent Institution)

HSE

(Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – rôl ymgynghorol)

Mae cerbydau sy'n symud yn un o brif achosion marwolaeth ac anafiadau difrifol ar ffermydd



- Sicrhewch fod eich cerbyd wedi'i gynnal yn dda, yn enwedig brecioau ôl-gerbydau
- Dylech gadw pobl a cherbydau sy'n symud ar wahân
- Ni ddylid cario teithwyr
- Dylech wisgo gwregys diogelwch bob amser
- Rhaid i bob gyrrwr fod wedi ei hyfforddi ac yn gymwys
- Sicrhewch fod drychau wedi'u gosod ac wedi'u haddasu'n gywir. Trwsiwch unrhyw ddrych sydd wedi torri cyn gynted â phosibl
- Dylech gadw drychau a ffenestri'r cab yn lân
- Sicrhewch fod pob llwyth yn sefydlog ac yn ddiogel
- Dylech sicrhau nad oes pobl o'ch cwmpas wrth yrru – nid oes modd gweld i bob cyfeiriad wrth yrru cerbydau fferm
- Dilynwch arferion 'Stopio'n ddiogel' bob amser

PEIDIWCH Â...

- Symud i ffwrdd mewn unrhyw gyfeiriad heb wirio'r uchod
- Anghofio gwirio bod y cerbyd mewn cyflwr da a diogel

Mae gwrthdroi cerbydau yn achos cyffredin o farwolaethau ac anafiadau difrifol ar y fferm...

Mae cerbydau pob tirwedd (ATV) a thractorau yn peri risgiau sylweddol

- Rhaid i bob gyrrwr fod wedi'i hyfforddi a bod yn gymwys
- Ni ddylid cario teithwyr
- Dylech wisgo gwregys diogelwch bob amser
- Rhaid i'r gyrrwr wisgo helmed ATV addas a chymeradwy
- Rhaid cynnal a chadw cerbydau, trelars ac unrhyw offer neu beiriannau sy'n cael eu tynnu tu ôl i'r cerbyd mewn cyflwr da - mae angen gwirio pwysedd y teiar, y brêc a'r sbardun yn rheolaidd
- Sicrhewch fod pob llwyth yn sefydlog ac wedi ei gydbwyso'n gywir
- Dilynwch arferion 'Stopio'n ddiogel' bob amser



PEIDIWCH Â...

- Gyrru neu weithredu ATV oni bai eich bod wedi'ch hyfforddi'n llawn ac yn gymwys
- Cymryd risgiau ar dir anwastad neu lethrog a all arwain at wrthdroi

Peiriannau



- Rhaid i bob defnyddiwr fod wedi'i hyfforddi a bod yn gymwys
- Dim ond o safle'r gyrrwr y dylid gweithredu'r rheolyddion a sicrhewch fod pob defnyddiwr yn gwybod sut i'w defnyddio'n gywir
- Cyn i chi wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar beiriant - yn y gweithdy neu yn y cae - gofawch ei bod yn ddiogel i chi i weithio arnynt drwy ddilyn arferion 'Stopio'n Ddiogel'
- Gwiriwch fod y gardiau cywir yn eu lle ac mewn cyflwr da. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa gardiau dylid fod yno.
- Gofawch fod yr offer i gyd yn addas at ei ddiben ac yn cael ei gynnal a'i gadw iawn yn rheolaidd
- Dilynwch arferion 'Stopio'n Ddiogel' bob amser

PEIDIWCH Â...

- Defnyddio offer os nad yw'r siafft PTO wedi ei warchod yn llawn gan y gardiau cywir sydd wedi'u diogelu gyda chadwyni i atal y gard rhag cylchdroi
- Defnyddio peiriant os nad ydych wedi'ch hyfforddi nac yn gymwys i'w ddefnyddio

Mae trin da byw yn un o brif achosion marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y fferm

- Sicrhewch fod pawb sydd yn trin da byw wedi'u hyfforddi ac yn gymwys
- Defnyddiwch gyfleusterau trin priodol bob amser, a'i gadw mewn cyflwr da
- Defnyddiwch redfa a chraets (crush) priodol ar gyfer yr anifeiliaid rydych chi'n gweithio â nhw a'r tasgau rydych chi'n eu gwneud
- Sicrhewch fod gennych bolisi pendant o ran difa anifeiliaid orlog
- Peidiwch byth â diystyru greddf buwch i amddiffyn llo sydd newydd ei eni
- Ceisiwch beidio gweithio ar eich pen eich hun gydag anifeiliaid mawr

PEIDIWCH Â...

- Gweithio gyda gwartheg / stoc rhydd heb gyfleusterau trin addas
- Diystyru risg yn ymwneud â gwartheg, hyd yn oed pan fo gennych drefniadau da wrth gefn



Mae disgyn o uchder yn un o brif achosion marwolaeth ac anafiadau difrifol ar ffermydd



- Rhaid i bawb sy'n gweithio ar uchder gael eu hyfforddi a bod yn gymwys
- Os nad ydych wedi'ch hyfforddi neu nad ydych chi'n gwybod pa gyfarpar i'w ddefnyddio yna dylech gysylltu â chontractwr arbenigol
- Ceisiwch osgoi neu leihau'r amser a dreulir yn gweithio ar uchder pan fo hynny'n bosibl - mae angen cynllunio a defnyddio'r cyfleusterau cywir megis sgaffaldiau a dyfeisiau atal cwmpo ar gyfer gwaith dros dro
- Lleihau'r risg o gwympo o beiriannau mawr fel combein trwy ddefnyddio'r ystolion mynediad neu'r mannau sefyll a ddarperir gan y gweithgynhyrchwyr

PEIDIWCH Â...

- Gweithio ar ben to bregus neu gerdded o fewn dau fetr o ardaloedd to bregus heb ei orchuddio heb ddefnyddio mannau sefyll gyda chanllawiau diogelwch, harnais diogelwch addas, net diogelwch neu systemau atal neu leihau cwmpo
- Gweithio ar unrhyw loriau neu lwyfannau penagored os nad oes ganddynt ganllawiau diogelwch addas



**GWEITHIO'N UNIGOL?
COFIWCH Y
FFÔN SYMUDOL**

DATBLYGU'R SGILIAU IECHYD A DIOGELWCH O FEWN EICH BUSNES

Hyfforddiant, cyngor a chymorth ar gael ar gyfer unigolion cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio

- Gall cwblhau Cynllun Datblygu Personol Cyswllt Ffermio ar-lein eich helpu chi i ddadansoddi eich anghenion busnes a chryfhau neu gyflwyno sgiliau newydd a all eich helpu i ddysgu a datblygu dulliau gweithio mwy diogel a mwy effeithlon.
- Dewiswch yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch o'r rhestr eang o gyrsiau sydd wedi'i ariannu drwy Cyswllt Ffermio.
- Dewiswch ddarparwr hyfforddiant o'r rhestr ar-lein a gymeradwywyd.
- Cwblhewch y modiwl e-ddysgu rhyngweithiol wedi'i ariannu'n llawn sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch (*mae hwn yn hanfodol os ydych chi'n bwriadu ymgeisio am hyfforddiant defnyddio peiriannau ac offer*) Mae'r modiwl ar gael ar wefan BOSS Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/boss/>

Gall unigolion sydd wedi cofrestru a Cyswllt Ffermio ymgeisio am gyllid o hyd at 80% ar gyfer cyrsiau byr achrededig. Am ragor o wybodaeth ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu ffoniwch y **Ganolfan Wasanaeth** ar **08456 000 813**.

Am gyngor ar ba hyfforddiant fyddai orau er mwyn bodloni eich gofynion fel busnes, trafodwch gydag un o'n darparwyr hyfforddiant cymeradwy neu eich swyddog datblygu lleol.

NODER Mae'n rhaid i chi ymgeisio a derbyn cymeradwyaeth gan Cyswllt Ffermio cyn dechrau'r hyfforddiant.



CYRSIAU HYFFORDDI

- Trin da byw yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau gwell proffidioldeb
- Defnyddio a chynnal a chadw llif gadwyn
- Cymorth Cyntaf yn y gweithle mewn argyfwng
- Cymorth Cyntaf yn y gweithle
- Iechyd a Diogelwch yn y gweithle
- Trin a thrafod pwysau
- Defnyddio paleiddiaid yn ddiogel
- Defnyddio dip defaid yn ddiogel
- Ymwybyddiaeth o ddiogelwch safle
- Gyrru cerbydau pob tirwedd (ATV)
- Peiriant trin telesgopig
- Gyrru tractor
- Gweithio ar uchder ac asesu risg
- Gweithio'n ddiogel ym maes amaeth / garddwriaeth

Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch



Mae digwyddiadau '**Achub Bywydau a Bywoliaeth**' Cyswllt Ffermio, sydd wedi'u hariannu'n llawn, yn cynnig arddangosfeydd byr ac ymarferol a allai eich cynorthwyo i leihau'r risg o ddamweiniau ac anafiadau ar fferydd.

Mae Iechyd a Diogelwch yn cael ei drafod mewn nifer o ddigwyddiadau eraill Cyswllt Ffermio. Cysylltwch â **Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio** am wybodaeth bellach.

Mentora un i un

Mae rhaglen fentora Cyswllt Ffermio yn darparu hyd at **22.5** awr o gyngor ac arweiniad un i un i ffermwyr a choedwigwyr cymwys yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys iechyd a diogelwch.

Bydd eich mentor iechyd a diogelwch yn eich cynorthwyo i adnabod risgiau, gwaredu peryglon a lleihau'r risg o ddamweiniau o fewn eich busnes.

I ddewis mentor cymeradwy o gyfeirlyfr ar-lein Cyswllt Ffermio, ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

Gallwch gyfyngu eich dewis trwy ddefnyddio'r adnodd i chwilio am fentoriaid iechyd a diogelwch.

Cyswllt Ffermio

Cysylltwch â ni heddiw:

.....
www.llyw.cymru/cyswlltffermio

08456 000 813

farmingconnect@menterabusnes.co.uk



Facebook.com/FarmingConnect



Twitter: @FarmingConnect

Am gyngor mwy cynhwysfawr ar iechyd a diogelwch fferm, ewch i:

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

www.hse.gov.uk/agriculture

Farm Safety Foundation

www.yellowwellies.org
